**CABINET Y CYNGOR**
**COFNODION**
**Gorffennaf 15fed 2014**

**Yn bresennol** – Y Cynghorwyr : Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, R H Wyn Williams, W Gareth Roberts, John Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Darpar Brif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), William Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr Arweinydd, y Cyng. Dyfed Edwards. Yn sgil ei absenoldeb, enwebwyd, eiliwyd a phenderfynwyd gofyn i'r Cyng. Gareth Roberts gadeirio'r cyfarfod.

Croesawyd aelodau Cabinet a swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Orffennaf 1af 2014.

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – ADOLYGIAD CHWARTER 1AF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD:**

Nodi'r rhagolygon cynnar o sefyllfa cyllideb 2014/15 a chytuno y dylai'r Aelodau Cabinet a'r Penaethiaid Gwasanaeth gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu rheolaeth, yn arbennig ynglŷn â materion sydd wedi'u nodi yma ac sy'n effeithio cyllidebau'r adrannau Oedolion, Addysg, a Rheoleiddio.

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – ADOLYGIAD CHWARTER 1AF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD:**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad y chwarter gyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig, sef:

- cynnydd £4,216,000 mewn defnydd o grantiau,
- cynnydd £345,643 mewn defnydd o gyfraniad refeniw, a
- cynnydd £223,912 mewn defnydd o gronfeydd.

## 8. TREFNIADAU RHANBARTHOL I DDIOGELU PLANT AC OEDOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal.

**PENDERFYNIAD:**

Cytuno ar y strwythur arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Cymunedau Diogel sydd i'w alw'n Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

---

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 1.40 o'r gloch.

__________________

**CADEIRYDD**